Adroddiad ar

Ysgol Betws Gwerful Goch

Betws Gwerful Goch
Corwen
LL21 9PY

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Betws Gwerful Goch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Betws Gwerful Goch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 20 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 15 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | * |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 53.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/05/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Betws Gwerful Goch yn darparu cymuned ddysgu gynhwysol a Chymreig lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r weledigaeth gytûn o fod yn 'un teulu' yn treiddio'n llwyddiannus drwy fywyd a gwaith yr ysgol, ar y cyd ag Ysgol Bro Elwern, sef ysgolion y ffederasiwn.

Mae arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol y pennaeth mewn gofal, gwaith ymroddedig y penaethiaid cynorthwyol a chefnogaeth ofalgar y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo cydweithio diwyd a chynhyrchiol rhwng cymunedau'r ddwy ysgol.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod eang o fedrau ar draws y meysydd dysgu, gan gynnwys yn eu mathemateg ac ysgrifennu sy'n datblygu'n gadarn. Ar y cyfan, mae staff yn cynnig cyfleoedd amserol i ddisgyblion ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain. Er hyn, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon bob tro'n rhoi arweiniad digon penodol i helpu disgyblion i wella eu gwaith na dyfnhau eu dealltwriaeth yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion a'r perthnasoedd gwaith cynhaliol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig. Mae staff yn fodelau iaith gwerthfawr, ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygiad medrau Cymraeg bron bob disgybl erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol chwilfrydig sy'n arddangos agweddau cadarnhaol ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu'n frwd at fywyd a gwaith yr ysgol drwy ystod o grwpiau llais y disgybl. Mae hyn yn eu harfogi i gyfrannu'n gynyddol hyderus at wneud penderfyniadau a meithrin eu medrau arwain yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol i ddisgyblion ac yn ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu. Darperir trawstoriad cyfoethog o brofiadau dysgu diddorol a chyson, gan gynnwys gweithgareddau mentergarwch hynod effeithiol, i ddatblygu diddordebau a medrau disgyblion yn fwriadus. Er hyn, nid yw'r arferion addysgu mwyaf effeithiol na disgwyliadau staff bob amser yn ddigon cyson ar draws y ffederasiwn i sicrhau bod bob disgybl yn gwneud y cynnydd gorau posibl yn eu dysgu.

Mae perthynas yr ysgol â rhieni, busnesau lleol a'r gymuned ehangach yn elfen hynod effeithiol o waith yr ysgol, gyda disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr at weithgareddau a digwyddiadau cymunedol bwriadus.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith y ffederasiwn ac yn dangos ymwybyddiaeth gref o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir a chytûn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cysoni dulliau addysgu effeithiol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer bob disgybl

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd pellach yn eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Betws Gwerful Goch wedi'i ffedereiddio ag Ysgol Bro Elwern. Golyga hyn fod yr ysgolion yn rhannu un corff llywodraethol a bod y pennaeth mewn gofal yn rhannu ei hamser ar draws y ddau safle. Trwy arweinyddiaeth gadarn y pennaeth mewn gofal, gwaith ymroddedig y penaethiaid cynorthwyol a chefnogaeth ddiwyd y staff a'r llywodraethwyr, maent yn hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng cymunedau'r ddwy ysgol.

Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn, sy'n cael ei chyfleu'n gywrain mewn pennill a gyfansoddwyd ar y cyd rhwng disgyblion a phartneriaid yr ysgol, sef *'Un teulu yw'r ddwy ysgol, un teulu ar y cyd, un teulu lle cawn ddysgu, mewn dysg a dawn o hyd.'* Mae'r weledigaeth hon yn sail gadarn i waith y ffederasiwn ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu o fewn cymunedau cynhwysol a Chymreig.

Mae perthnasoedd gwaith arweinwyr a staff â'r rhieni a'r gymuned ehangach yn hynod gadarn ac yn rhinwedd nodedig o fywyd a gwaith y ffederasiwn. Mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hyrwyddo'r ysgolion yn eu cymunedau lleol yn effeithiol, ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r ddarpariaeth a'r gofal a gynigir i'w plant.

**Ciplun: Meithrin ymdeimlad cryf o gymuned drwy bartneriaethau effeithiol**

Mae'r ysgol wrth galon ei chymuned. Mae arweinwyr a staff yn creu a chynnal partneriaethau gwerthfawr sy'n cyfoethogi lles a phrofiadau dysgu disgyblion yn grefftus. Gwnânt ddefnydd cynhwysfawr o gyfraniadau ymwelwyr ac ymweliadau o fewn eu milltir sgwâr i ehangu profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, mae cogydd lleol yn cydweithio â'r disgyblion i gynllunio bwydlen iach ar gyfer gweini bwyd i'r gymuned yng 'Nghaffi Bach Betws'. Mae disgyblion hefyd yn cyfrannu'n gyson at fywyd y gymuned trwy berfformio mewn digwyddiadau lleol a dathliadau arbennig, fel boreau coffi Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion yn ymweld â chartref preswyl lleol yn rheolaidd i ddarllen, perfformio a chwarae gemau gyda'r preswylwyr hŷn. Mae'r profiadau hyn yn datblygu medrau cymdeithasol disgyblion yn fwriadus, yn meithrin empathi a pharch tuag at eraill yn effeithiol ac yn cryfhau'r ymdeimlad o berthyn a balchder i'w bro yn hynod lwyddiannus. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn hynod weithgar ac yn cyfrannu'n gyson at gyfoethogi'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd a gynigir i ddisgyblion.

Mae llywodraethwyr yn ymfalchïo yn y bartneriaeth ragweithiol sy'n bodoli ar draws y ffederasiwn. Trwy ymweliadau rheolaidd i'r amgylcheddau dysgu, mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysol o gryfderau'r ysgolion a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n wybodus at drafodaethau penodol i bennu blaenoriaethau strategol cytûn a synhwyrol ar gyfer y ffederasiwn.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth a'r dysgu. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod o weithgareddau hunanwerthuso bwriadus, gan gynnwys craffu ar waith, teithiau dysgu a chasglu barn disgyblion a'u rhieni. Trwy hyn, maent yn caffael dealltwriaeth glir o gryfderau'r ddarpariaeth a'r agweddau sydd angen eu mireinio ymhellach. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd creadigol o'r cyllid ychwanegol a geir drwy amrywiaeth o grantiau pwrpasol yn y gymuned i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol a chyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn darparu ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu'n ystyrlon fel aelodau o Gabinet yr ysgol, ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiadau pwysig ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi cydweithio ag arweinwyr yn ddiweddar i adolygu'r trefniadau gwrth fwlio, gan gryfhau ymwybyddiaeth disgyblion a'u rhieni o

hawl pawb i deimlo'n ddiogel rhag cam-drin corfforol a geiriol. Trwy'r cyfleoedd ystyrlon hyn, mae disgyblion yn datblygu eu medrau arwain a chydweithio yn llwyddiannus.

Elfen nodedig o waith yr ysgol yw'r perthnasoedd gwaith cynnes rhwng staff a disgyblion. Mae hyn yn meithrin amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo lles emosiynol, corfforol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Rhoddir pwyslais amlwg ar ddarparu cyfleoedd cyson i hybu ffitrwydd corfforol disgyblion trwy gymryd rhan mewn sesiynau nofio rheolaidd a chystadlaethau tîm fel ffederasiwn. Bron heb eithriad, mae disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo bod oedolion yn eu gwerthfawrogi ac yn cefnogi eu lles trwy'r cyfleoedd buddiol i drafod eu teimladau. Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu o'u mannau cychwyn unigol.

Trwy weithredu strategol bwriadus, mae'r pennaeth mewn gofal yn meithrin amgylchedd o barch a chydweithio cyson ymysg staff y ffederasiwn. Mae'r cymorthyddion yn aelodau gwerthfawr o dîm yr ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol ystyrlon, mae staff yn datblygu arbenigedd gwerthfawr i arwain gweithgareddau creadigol a llesol yn fedrus yn yr ardal goedwig ar gyfer disgyblion y ffederasiwn. Mae hyn yn rhinwedd nodedig o'r ddarpariaeth gynhwysol sy'n cyfrannu'n gadarn at feithrin mwynhad a chwilfrydedd disgyblion at eu dysgu.

Mae medrau gwrando bron bob disgybl yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt gymryd diddordeb cynyddol yng nghyfraniadau ei gilydd. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn gwrtais a pharchus gan ddangos gofal cynhenid at ei gilydd, at oedolion ac ymwelwyr.

Mae bron bob disgybl yn datblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Wrth symud drwy'r ysgol, maent yn datblygu hyder cynyddol ac yn dyfalbarhau'n dda â'u dysgu. O ganlyniad i ddefnyddio technegau meddwl pwrpasol, mae bron bob disgybl yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol hyderus sy'n ceisio dod o hyd i ddatrysiad eu hunain cyn troi at oedolion am gymorth.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio dulliau ffoneg i adnabod geiriau syml a chyfarwydd yn gywir yn effeithiol. Maent yn mwynhau darllen â'u cyfoedion hynaf, sy'n meithrin eu hyder ac ennyn eu diddordeb mewn llyfrau yn bwrpasol. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod briodol o destunau gyda rhuglder cynyddol ac yn cymhwyso eu medrau darllen yn fwriadus i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn gadarn ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar gan ddefnyddio gwahanol offer yn yr ardaloedd y tu fewn a thu allan yn bwrpasol. Ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach yn y ddwy iaith gan addasu eu harddull yn briodol ar gyfer gwahanol destunau yn effeithiol.

Yn yr arferion gorau, mae staff yn holi disgyblion yn fedrus i wirio eu dealltwriaeth ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt drafod a mireinio eu gwaith fel rhan naturiol o'r dysgu. Er hyn, yn gyffredinol, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn canolbwyntio'n ormodol ar gywirdeb sillafu ac nid yw bob amser yn rhoi arweiniad digon penodol i gefnogi disgyblion i wella eu gwaith. Yn ogystal, nid yw athrawon bob tro'n manteisio ar gyfleoedd i ymestyn a dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o themâu amrywiol yn ddigon bwriadus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ystod o gysyniadau mathemategol ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus mewn cyd-destunau perthnasol. Darperir cyfleoedd priodol i ddisgyblion feithrin eu medrau digidol yn bwrpasol. O oedran cynnar, mae'r disgyblion ieuengaf yn cymhwyso amrywiol fedrau yn fwriadus i gefnogi eu dysgu. Wrth i'w medrau aeddfedu, mae'r disgyblion hynaf, er enghraifft, yn dylunio gwefannau'n lled annibynnol i werthu cynnyrch.

Mae arweinwyr a staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn yr ardal leol, hunaniaeth Gymreig y disgyblion a'r byd ehangach. Mae'r cysylltiad gwerthfawr ag ysgol yn Uganda yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau a safbwyntiau pobl eraill ar draws y byd. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn bwrpasol.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau dysgu pwrpasol sy'n adeiladu'n fwriadus ar fedrau a gwybodaeth flaenorol disgyblion. Maent yn darparu cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol. Mae disgyblion yn ymateb yn hyderus i'r profiadau hyn ac yn cydweithio'n effeithiol wrth gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain.

### Ciplun: Ehangu gorwelion disgyblion drwy brofiadau mentergarwch ystyrlon

Trwy ystod eang o weithgareddau entrepreneuraidd a strategaethau ariannol creadigol, fel cynllunio busnesau, datblygu a gwerthu cynhyrchion mewn siopau lleol a rheoli cynlluniau cynilo yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau menter a rheoli arian yn fedrus.

Yn rhan o'r gwaith hwn, mae disgyblion yn cydweithio'n ddiwyd ag arweinwyr i nodi blaenoriaethau cytûn ar gyfer gwella, sy'n cynnwys datblygu darllen gartref. Trwy fentrau creadigol fel casglu talebau 'gwerfylau' ac arian yn wythnosol, mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau ystyrlon ynghylch gwario yn siop yr ysgol, mewn sefydliadau yn lleol neu fuddsoddi eu cynilion yn y banc. Mae hyn yn dechrau cyfrannu'n gadarn at feithrin mwynhad disgyblion o ddarllen o oedran cynnar. Mae'r profiadau gwerth chweil hyn yn ehangu dealltwriaeth disgyblion o fyd busnes ac economi'r ardal leol yn effeithiol, gan gyfrannu'n llwyddiannus at godi eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Yn yr arfer orau, mae staff yn sicrhau cyflymder sy'n addas ar gyfer y dysgu, yn meddu ar ddisgwyliadau uchel, ac yn darparu lefel her briodol. Trwy olrhain cynnydd disgyblion yn fwriadus, mae arweinwyr a staff yn eu cefnogi'n bwrpasol i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn barhaus. Er hyn, nid yw'r arferion addysgu mwyaf effeithiol na disgwyliadau staff bob amser yn ddigon cyson ar draws y ffederasiwn i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud y cynnydd gorau posibl yn eu dysgu.

Mae arddel balchder y disgyblion yn eu hunaniaeth Gymraeg a Chymreig yn rhan annatod o fywyd a gwaith y ffederasiwn. Mae staff yn hyrwyddo'r iaith yn frwdfrydig sy'n cael effaith gadarn ar fedrau llythrennedd Cymraeg y disgyblion o oedran ifanc. Trwy hyn, mae bron bob un yn siarad Cymraeg yn ddigymell gan sgwrsio'n gwbl huawdl yn y ddwy iaith mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu perthnasol erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn trafod profiad gwerthfawr o ymweld â Phatagonia yn fyrlymus i gydweithio a chlocsio â'r disgyblion yno, er enghraifft.

Trwy gydweithio agos â staff ysgolion cyfagos, caiff athrawon a chymorthyddion gyfleoedd rheolaidd i rannu arfer effeithiol a'u harbenigeddau mewn addysgu a dysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at allu'r ffederasiwn i wella'n barhaus. Maent yn cyflwyno amrywiaeth fuddiol o weithgareddau diddorol ar y cyd i ddisgyblion yr ysgolion, fel ieithoedd tramor modern, datblygu medrau digidol ehangach a mynegiannol disgyblion yn llwyddiannus.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol ac arian grantiau yn briodol. Mae arweinwyr yn adnabod bod gan y ffederasiwn warged ariannol ac maent yn ei wario'n ddarbodus

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026